Cyfle Cymru
Peer Mentoring Service
0300 777 2256
ask@cyflecymru.com
Newsletter | Gaeaf 2019
Cymru Iach ar WAITH | Gwasanaeth Di-Waith
Healthy WORKING Wales | Out of Work Service

# Gwobr Genedlaethol am 'fentor gorau'



## Mae menter cyfoedion Cyfle Cymru, Larry Marsden, wedi cael ei enwi fel un o'r goreuon yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y wobr i Larry, sy'n arwain tîm o 20 o staff a mentoriaid gwirfoddol ledled Gogledd Cymru**, gan y gweinidog cyllid Mark Drakeford mewn digwyddiad arbennig lle ddaeth nifer o gyfranogwyr o brosiectau a gefnogir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ynghyd yng Nghaerdydd.

Mae Larry yn adfer ac mae wedi gweithio gyda CAIS ers 2010. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae wedi defnyddio ei brofiad personol i helpu cannoedd o bobl eraill sydd â chefndir camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl yn ogystal â chefnogi mwy na 100 o bobl i swyddi newydd.

Dywedodd rheolwr Cyfle Cymru a dirprwy brif weithredwr CAIS, Lynn Bennoch, ei bod wrth ei bodd bod Larry wedi ennill y wobr hon sy'n cydnabod ei waith ysbrydoledig wrth gefnogi eraill.

### Ymdrechion diflino

"Maen anodd gwybod sawl gwaith mae Larry wedi mynd y filltir ychwanegol i gefnogi cyfranogiad Cyfle Cymru," meddai Lynn. "Mae bob amser yn mynd allan o'i ffordd i sicrhau ei fod yn ateb gofynion yr unigolion y mae'n gweithio gyda nhw, ac mae'n rheoli a chefnogi tîm mawr o gydweithwyr sydd wedi'u lleoli ledled Gogledd Cymru.

Dyna pam yr ydym mor falch ein bod wedi cydnabod ymdrechion diflino Larry gyda'r wobr fawreddog hon gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Mae wedi cefnogi cannoedd o'r bobl fwyaf bregus a difreintiedig yng Nghymru - gan gynnwys helpu mwy na 100 o bobl i yrfaoedd newydd ac i weithio tuag at annibyniaeth ariannol.

Mae hwn yn waith pwysig, a dim ond yn bosib diolch i brofiad personol, brwdfrydedd ac ymrwymiad personol Larry. Mae ei lwyddiant yn rhan o lwyddiant ehangach ein rhaglen, ac rydym yn edrych ymlaen i ddathlu gyda fe. "

### Cyfraniad sylweddol

Dan arweiniad CAIS, mae Cyfle Cymru yn brosiect mentora cyfoedion a ariennir gan yr UE sy'n cefnogi pobl sydd â rhwystrau i gyflogaeth a rhoi cyfleoedd gwirfoddoli iddynt, mynediad at hyfforddiant a chymorth i ddod o hyd i waith.

Hyd yn hyn, mae mwy na 6,250 o bobl wedi derbyn cefnogaeth gan fentoriaid cyfoedion Cyfle Cymru ar hyd a lled ardaloedd yng Ngogledd Cymru, Gwent, Dyfed, Powys a'r Bae Gorllewinol.

Gyda'i gilydd, mae'r tîm wedi darparu mwy na 108,000 o oriau o gymorth, ac wedi helpu 1,500 o bobl i gael cymhwyster neu dystysgrif newydd. Mae'r cyfranogwyr wedi treulio mwy na 22,000 awr yn gwirfoddoli, gan wneud cyfraniad sylweddol i gymunedau ar hyd a lled Cymru.




dacw
Developing a caring Wales
Datblygu Cymru gofalgar
UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund
Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales
Gwasanaeth Di-Waith
Out of Work Service

0300 777 2256
ask@cyflecymru.com

# Ein straeon

Mentoriaid i gyfoedion sy'n gweithio ar y prosiect Cyfle Cymru yn rhannu eu profiadau adfer

## Tony Davies

### Mentor Cymheiriaid, Gwent



**Mae Tony Davies yn fentor cyfoedion yn ein swyddfa yng Nghasnewydd. Yn ddiweddar, mae wedi pasio ei brawf 6 mis gyda ni, sy'n gyflawniad enfawr iddo.**

Mae gorffennol Tony yn cynnwys dros 20 mlynedd o gamddefnyddio sylweddau a threulio amser i mewn ac allan o'r ddalfa am nifer o wahanol droseddau. Newidiodd hyn yn 2016 pan lwyddodd i adfer eto yn dilyn cyfnod arall mewn carchar leol.

Ar ôl gadael, daeth yn rhan o GDAS (Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent) a dechreuodd wirfoddoli yn The Hub, Casnewydd, gan gefnogi defnyddwyr gwasanaeth eraill o'r ardal leol. Mwynhaodd hyn gymaint fel y daeth yn Wirfoddolwr Arweiniol ac roedd yn gyfrifol am agor a chau'r ganolfan, cynnal gweithdai ac adferiad smart a chefnogi gwirfoddolwyr newydd eraill oedd yn dod ar y rhaglen.

Dechreuodd Tony ymgysylltu â Cyfle Cymru a dechrau gwirfoddoli ar y paneli cyfweld ynghyd ag aelodau eraill y consortiwm a theimlodd y byddai hwn yn gyfle da iddo.

Dywedodd "Roeddwn i'n nerfus am wneud cais am y rôl gan mai dyma'r unig swydd 'go iawn' y byddwn wedi'i chael ers blynyddoedd.  Roeddwn yn argyhoeddedig y byddai fy hanes yn broblem, ond nid dyma oedd yr achos, ac rwyf nawr yn caru fy ngwaith yn helpu pobl sydd ar eu isaf ac rwy'n rhoi'r hyder iddynt wybod y gallant hefyd ddod drwyddi. "

## Oli Sidnell

### Mentor Cymheiriaid, Dyfed

**Fy enw i yw Oli Sidnell ac rydw i wedi bod gyda Cyfle Cymru fel mentor cyfoedion yng Ngheredigion ers mis Medi y llynedd. Cyn hynny, roeddwn wedi gweithio yn y diwydiant adeiladu ac wrth fy modd yn gwneud hynny.**

Dechreuais wirfoddoli gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ataliadau ac fe wnaethom ymdrin â llawer o bynciau perthnasol mewn hyfforddiant yn ogystal â chael rhywfaint o brofiad yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Fe wnes i fwynhau gwirfoddoli gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ataliadau ac rwy'n dal i wneud pan mae gen i amser. Roeddwn yn amharod i fynd yn ôl i'r diwydiant adeiladu gan fy mod yn ysu am newid ac felly fe wnes i gais am y swydd hon a diolch i'r hyfforddiant a'r profiadau a gefais gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ataliadau, roeddwn yn llwyddiannus ac fe gefais y swydd.



Ers dechrau gweithio gyda Cyfle Cymru, rydw i wedi cwrdd â llawer o bobl newydd hyfryd gan gynnwys y staff a'r defnyddwyr gwasanaeth ac rwy'n hoffi meddwl fy mod i'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i rai ohonynt. Edrychaf ymlaen at ennill profiad a helpu i ddatblygu'r hyn sydd gan Cyfle i'w gynnig yn fy sir.

Rydym yn gwirfoddoli yn rheolaidd mewn sw bach yn gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw ac mae'n edrych fel pe bai pawb yn cael amser gwych.

Rwy'n mwynhau fy rôl newydd.

0300 777 2256
ask@cyflecymru.com

# Ein straeon

Rhannu newyddion da o bob cwr rhwydwaith Cyfle Cymru

## Chris



**8 mlynedd yn ôl roedd bywyd Chris ar ei anoddaf. Ar ôl i'w berthynas chwalu ac ar ôl colli ei swydd, collodd reolaeth ar ei yfed cymdeithasol ac hefyd ar gyflwr ei iechyd meddwl.** Fe'i canfuwyd ar strydoedd y Fenni heb unrhyw syniad o sut y cyrhaeddodd yno ac fe'i ruthrwyd yn syth i'r ysbyty i ddechrau ar y broses o geisio cael trefn ar ei fywyd unwaith eto.

"Ar un adeg, dywedodd fy mab fy hun wrtha i fy mod yn 'wastraff amser' a dywedodd wrtha i na fyddai fy mywyd yn mynd i unman oni bai fy mod yn barod i ymladd i wneud rhywbeth amdano" meddai Chris. Bellach mae'n credu mai dyna'r ysgogiad oedd ei angen arno er mwyn iddo chwilio am y math o gefnogaeth roedd ei angen arno gan unrhyw un a allai gynnig hynny iddo.

Clywodd am Cyfle Cymru gan ei Hyfforddwr Gwaith yng Nghanolfan Waith y Fenni ac yn y lle cyntaf roedd y ddau yn amheus y byddai'n cadw at ddefnyddio'r gwasanaeth, yn enwedig o gofio nad oedd wedi clywed am Cyfle Cymru o'r blaen.

Daeth Chris i'r apwyntiad cyntaf ac o'r cychwyn cyntaf roedd yn gwerthfawrogi bod y Mentor Cyfoedion yn mynd ar gyflymder oedd yn gyfforddus iddo: "Rwy'n gwerthfawrogi nad oedd Cyfle yn fy ngwthio a'u bod yno i drafod fy rhwystrau a fy nyheadau proffesiynol a phersonol. "

Roedd Chris wedi bod mewn swydd reolaeth ganolog yn ennill arian da iawn gyda llawer o gyfrifoldeb. Ond nawr roedd e eisiau rhywbeth syml lle y gallai fynd i mewn, gwneud gwaith da, ennill cyflog a gadael gyda gwên ar ei wyneb ar ddiwedd y dydd.

Ar ôl gweithio gyda'i fentor cyfoedion ar hyfforddiant heb ei achredu, chwilio am swydd, a mynychu Gweithdai Lles, sbardunwyd y cymhelliant a'r dewrder yn Chris i ymgeisio am swydd gyda'r cyflogwr lleol Avara am rôl ar y llinell ffatri.

Ar ôl proses eithaf hir, dechreuodd Chris ei rôl yn llawn amser ar y llinell gynhyrchu. O fewn pythefnos, gofynnodd pennaeth y ffatri am ei weld. Roedd Chris yn ofni'r gwaethaf ond dywedodd hi wrtho ei fod wedi gwneud argraff mor dda ei bod am roi cynnig iddo mewn rôl fel Cynorthwy-ydd Rheolwr Storio.

"Mae'n wych", meddai Chris, "mae fy rheolwr llinell yn halen y ddaear, mae'n swydd braf mewn lle tawel a chynnes, ac yn y bôn rydych chi'n reolwr arnoch chi eich hun a dwi hyd yn oed ar fin cael codiad cyflog!". "Dros yr 8 i 10 mlynedd ddiwethaf, dw i ddim wedi cael llawer o lwc - ar adegau roeddwn i ar fai am hynny - ond dro arall, nid fi oedd ar fai - ond y gwir yw gallai fod wedi troi allan yn well". "Rydw i nawr yn ennill cyflog, yn cyflawni ac yn gwneud rhywbeth o werth. Rwy'n cerdded 25 milltir yr wythnos i fy ngwaith, rwyf wedi colli stôn mewn pwysau ac mae fy ffitrwydd a fy lles personol wedi gwella'n fawr." "Mae'n braf cael fy annibyniaeth yn ôl; i brynu peint o laeth gyda fy arian fy hun ac nid gyda budd-daliadau. A'r teimlad o hunanwerth - rwy'n gwybod fy mod wedi ennyn parch gan bobl eraill ac mae hynny'n beth braf. Gyda'ch help a gyda chymhelliant a chefnogaeth fy mab - roeddwn i eisiau gwneud hyn er ei fwyn o ac er mwyn rhoi'r cyfan iddo fo." " Diolch i Cyfle Cymru am yr anogaeth, cefnogaeth ac arweiniad aruthrol. I gwrdd â'r Mentor Cyfoedion yn unigol, i eistedd i lawr a bwrw bol - mae e wastad wedi bod o gymorth i mi allu cerdded o'r sesiynau gyda hwb mawr o hyder." " Rwy'n gwybod nad wyf wedi gorffen fy siwrnai eto, ond rwyf wedi ystyried i le dw i'n mynd a byddaf yn parhau i ymdrechu a chyflawni 10/10 mewn bywyd er mwyn fy hun ac er mwyn fy mab." "Fy ngham nesaf yw cael car, rhywbeth na fyddwn erioed wedi breuddwydio am wneud 6 mis yn ôl hyd yn oed!"

# Cyfle Cymru

Gwasanaeth Mentora Cyfoedion

Cymru Iach ar WAITH | Gwasanaeth Di-Waith

Healthy WORKING Wales | Out of Work Service

0300 777 2256
ask@cyflecymru.com

# Y newyddion diweddaraf o'ch ardal



Gogledd Cymru

Gwent

Dyfed

Bae Gorllewinol

Powys



**MAE MWY NA MAE 100 o wirfoddolwyr o bob cwr o Gymru wedi rhoi o'u hamser i ofalu am anifeiliaid yn rhai o atyniadau mwyaf poblogaidd y wlad.**

Ymunodd pobl mewn adferiad o gamddefnyddio sylweddau a gyda chyflyrau iechyd meddwl gyda cheidwaid ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn y Barri, Teyrnas Anifeiliaid Gwyllt yn Borth ger Aberystwyth, Y Sw Mynydd Cymreig ym Mae Colwyn a'r Warchodfa Dylluanod yng Nglyn Ebwy.

Yn y cyfamser, fe wnaeth cyfranogwyr Cyfle Cymru ym Mhowys flancedi cnu cynnes i'w rhoi i'r lloches cŵn Creature Comforts ger Aberhonddu.

Dangosodd y diwrnod undydd o wirfoddoli y gall pobl sy'n gwella o gyflyrau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau gyfrannu'n sylweddol at eu cymunedau - a datblygu'r sgiliau angenrheidiol i lwyddo ym myd gwaith.

Mae cannoedd o gyfranogwyr y prosiect eisoes wedi darganfod gyrfaoedd newydd gyda chymorth y rhaglenni mentora, hyfforddiant a gwirfoddoli yn ogystal â'r gefnogaeth unigol maent yn ei dderbyn i ddod o hyd i waith.



Mae ein mentoriaid cyfoedion ac ymgynghorwyr cyflogaeth wedi darparu mwy na 110,000 awr o gefnogaeth unigol ar draws ardaloedd Gogledd Cymru, Gwent, Dyfed, Powys a'r Bae Gorllewinol.

Ym Mae Colwyn, daeth dwsinau o gyfranogwyr o bob cwr o Ogledd Cymru ynghyd i gwblhau gwaith sylfaen pwysig ar y tir a gwasgaru pren mân yn Sw Mynydd Cymru er mwyn helpu i baratoi ar gyfer arddangosfa newydd.

"Roedd hi'n wych dod â'n timau ar draws y rhanbarth at ei gilydd, i ddangos pŵer adfer ac i ddangos sut mae ein gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad go iawn i gymunedau ledled Cymru," meddai prif fentor cyfoedion Gogledd Cymru Larry Marsden.

Yn Borth, roedd gwirfoddolwyr mor brysur yn tyllu yng nghorlan y mircatiaid eu bod wedi gwrthod taith i weld y llewod! Treuliodd eraill y diwrnod yn symud coed er mwyn clirio lle ar gyfer prosiect newydd, tra y bu aelod arall o'r tîm yn gweithio'r tu allan gyda gweddill y grŵp ar ôl llwyddo i oroesi ei phryder.

Dywedodd y mentor cyfoedion, Oliver Sidnell, fod y cyfranogwyr yn gadael y sw yn teimlo'n flinedig - ond yn hapus a gyda theimlad eu bod wedi cyflawni rhywbeth.

"Roedd ein cyfranogwyr yn siarad fel pe baent wedi adnabod ei gilydd ers oes - yn cyfnewid straeon adfer a rhannu geiriau o anogaeth a chymorth," meddai.

"Roedd y sw yn fyw gyda sŵn chwerthin a gyda phawb yn gwenu. Roeddwn yn teimlo'n ddiymhongar yn eu cwmni ac ni allaf aros i ddod â nhw at ei gilydd eto! "

Roedd gan ein tîm o fentoriaid a gwirfoddolwyr gornel gyfan yng Ngwarchodfa Tylluanod Parc Teyrnas Glyn Ebwy. Ar ôl croeso cynnes iawn a diwrnod gwych yn gwneud ffrindiau newydd, maent yn gobeithio dychwelyd yn fuan.

Yn y Barri, roedd y grŵp yn bwydo ac yn rhyngweithio â nifer o'r anifeiliaid - gan gynnwys geifr, ieir, defaid, moch ac alpaca. Fe wnaeth pawb fwynhau'r coffi a chacen hefyd, ac mae'r grŵp yn edrych ymlaen at ddychwelyd i wneud mwy o wirfoddoli.



0300 777 2256
ask@cyflecymru.com


Mae ein bwletin data diweddaraf yn dangos sut mae ein timau ledled Cymru yn helpu pobl i oresgyn heriau i ddod o hyd i neu agosau at ddod o hyd i waith

**O FIS AWST 2016 HYD AT DDIWEDD IONAWR 2019 (h.y. y deg chwarter cyntaf), mae Cyfle Cymru wedi derbyn cyfanswm o 6826 o atgyfeiriadau ar draws y pum maes rhanbarth.**
**O'r rhain, mae 6757 wedi eu cofrestru i'r gwasanaeth - cyfradd cofrestru 99.0%. Yn gyfan gwbl, 122,333 awr o gefnogaeth a oddwyd yn ystod y deg chwarter cyntaf y prosiect.**

**Y dilyniant tuag at gyflogaeth**







Oedran cyfartalog y bobl sydd wedi cofrestru i Cyfle Cymru yw 37.2. Roedd y gyfran fwyaf o unigolion cofrestredig yn y grwp 25 i 34 oed.




% dynion/ferched sydd wedi cofrestru I Cyfle Cymru

# Perfformiad

**Darperir CYFLE CYMRU ar draws pum rhanbarth Cymru, gan redeg ar hyd a lled y wlad. Mae'r ardal yn cynnwys Gorllewin Cymru a'r ardal cyllid Cymoedd (lliw glas ar y map) ac ardal Dwyrain Cymru (lliw gwyrdd).**

## Meysydd darparu

**Dyfed**
Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin

**Gwent**
Sir Fynwy, Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Tor-faen

**Gogledd Cymru**
Wrecsam, Sir Y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd, Ynys Môn

**Powys**

**Bae Gorllewinol**
Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-Y-Bont Ar Ogwr



# Cyfle Cymru

## Gwasanaeth Mentora Cyfoedion

0300 777 2256
ask@cyflecymru.com

Cymru Iach ar WAITH | Gwasanaeth Di-Waith

Healthy WORKING Wales | Out of Work Service

## Cyfle Cymru: am y gwasanaeth

**MAE CYFLE CYMRU yn wasanaeth sy'n helpu pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a / neu gyflyrau iechyd meddwl sydd mewn adferiad neu sydd tuag at ddiwedd eu rhaglen driniaeth i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant.**

Mae'r prosiect wedi cael ei ariannu am 2 flynedd gychwynnol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac fe'i ddarperir gan aelodau DACW (Datblygu Cymru Gofalgar), yng Ngogledd Cymru, Gwent, Dyfed, y Bae Gorllewinol a Phowys.

Mae Cyfle Cymru yn darparu'r gefnogaeth sydd ei angen i ddod o hyd i'r swydd iawn, cyfleoedd hyfforddiant neu gymwysterau.

Mae'n cynnig:

- arweiniad un-i-un gan fentor cyfoedion sy'n gallu rhannu ar eu profiadau eu hunain o gamddefnyddio sylweddau, adfer a / neu gyflyrau iechyd meddwl;
- cymorth cyflogaeth arbenigol, gan gynnwys cyfleoedd i wirfoddoli, a help a chyngor ar sut i chwilio a gwneud cais am swyddi.

## Pwy sy'n gymwys?

Gall y gwasanaeth gefnogi unigolion tuag at ac i mewn i waith os ydynt:

- yn 16-24 oed ac nad ydych mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- yn 25 oed neu drosodd a wedi bod heb swydd neu heb fod yn y byd gwaith ers cyfnod hir
- yn byw yng Ngogledd Cymru, Gwent, Dyfed, y Bae Gorllewinol neu Bowys
- yn gwella o gamddefnyddio sylweddau a / neu broblemau iechyd meddwl

### Diffiniad o fod yn ddi-waith tymor hir

Unigolyn sydd wedi bod yn ddi-waith am fwy na 12 mis a bod ganddo/i un neu fwy o'r rhwystrau cymhleth isod:

- problemau iechyd meddwl a/ neu broblemau camddefnyddio sylweddau
- sgiliau isel neu ddim sgiliau
- sydd â chyfrifoldebau gofal neu ofal plant
- sy'n dod o gartref di-waith
- sydd â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
- o gefndir BME (Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig)

### Diffiniad o economaidd anweithgar

Person nad ydynt yn rhan o'r gweithlu (yn yr ystyr nad ydynt yn gyflogedig na'n ddi-waith) neu rhywun sydd mewn addysg neu hyfforddiant ar hyn o bryd, yn 25 oed neu'n hyn, a bod ganddo/i un o'r rhwystrau cymhleth a restrir isod:

- problemau iechyd meddwl a / neu broblemau camddefnyddio sylweddau
- sgiliau isel neu ddim sgiliau
- sydd â chyfrifoldebau gofal neu ofal plant
- sy'n dod ogartrefi di-waith
- sydd â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
- o gefndir BME (Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig)

Sylwer os gwelwch yn dda: rhaid i unigolion fod â naill ai problemau camddefnyddio sylweddau a / neu broblemau iechyd meddwl

## Canlyniadau

Mae'r canlyniadau ar gyfer y prosiect fel a ganlyn:

- cwblhau cwrs heb ei achredu
- ennill cymhwyster neu dystysgrif sy'n berthnasol i'r gwaith
- mynd i fyd cyflogaeth gan gynnwys hunan-gyflogaeth
- yn chwilio am swydd mewn modd gweithredol ar ôl gadael
- cynyddu cyflogadwyedd trwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli
- mynd i addysg bellach
- mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael

Mae'r cyllid yn ddibynnol ar gyflawni'r canlyniadau hyn sydd â thargedau penodol wedi'u pennu ar gyfer pob un.

## Cysylltwch â ni

Os hoffech gyfeirio at y prosiect neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni. Mae'r manylion cysylltu isod:

0300 777 2256
ask@cyflecymru.com
www.dacw.co.uk

dacw
Developing a caring Wales
Datblygu Cymru gofalgar

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Cymru Iach ar Waith | Gwasanaeth Di-Waith
Healthy Working Wales | Out of Work Service

Cyfle Cymru
Peer Mentoring Service
0300 777 2256
ask@cyflecymru.com

Newsletter | Winter 2019

Cymru Iach ar WAITH | Gwasanaeth Di-Waith
Healthy WORKING Wales | Out of Work Service

# National award for 'best mentor'

## Cyfle Cymru peer mentor Larry Marsden has been named one of the best in Wales



**Larry, who leads a 20-strong team of staff and volunteer mentors across North Wales**, was presented with his award by finance minister Mark Drakeford at a special gathering of projects backed by the Welsh European Funding Office in Cardiff.

Larry is in recovery and has worked with CAIS since 2010. In that time, he's used his personal experience to help hundreds of others with substance misuse and mental health conditions – and supported more than 100 people into new jobs.

Cyfle Cymru programme manager and CAIS deputy chief executive Lynn Bennoch said she was thrilled at the award – which recognises Larry's inspirational work to support others.

### 'Tireless efforts'

"We've lost track of the number of times Larry has gone the extra mile to support a Cyfle Cymru participant," Lynn said. "He always goes out of his way to make sure he meets the needs of the individuals he works with, and to manage and support a large team of colleagues based throughout North Wales.

"That's why we're so pleased that Larry's tireless efforts have been recognised with this prestigious award from the Welsh European Funding Office.

"He has personally supported hundreds of the most vulnerable and disadvantaged people in Wales – including helping more 100 people into rewarding new careers and towards financial independence.

"This is important work, and only possible thanks to Larry's personal experience, enthusiasm and commitment. His success is part of the wider success of our programme, and we couldn't be prouder to share the celebrations with him."

### Significant contribution

Led by CAIS, Cyfle Cymru is an EU-funded peer mentoring project which supports people with barriers to employment – and provides them with volunteering opportunities, access to training and help to find work.

So far, more than 6,250 people have received support from Cyfle Cymru peer mentors throughout the North Wales, Gwent, Dyfed, Powys and Western Bay areas.

Together, the team have delivered in excess of 108,000 hours of support, and helped 1,500 people to a new qualification or certificate. Participants have spent more than 22,000 hours volunteering, making a significant contribution to communities across Wales.



# Our stories

Peer mentors who work on the Cyfle Cymru project share their recovery experiences

## Tony Davies

### Peer Mentor, Gwent



**Tony Davies is a Peer Mentor based in our Newport office. He has recently passed his 6 month probation with us which is a huge achievement for him.**

Tony's past includes over 20 years of substance misuse and spending time in and out of custody for a number of different offences, this finally changed in 2016 when he became clean again following another stint in a local prison.

Upon leaving, he became involved with GDAS (Gwent Drug and Alcohol Service) and began volunteering at The Hub, Newport, supporting other service users from the local area. He enjoyed this so much he became the Lead Volunteer and was responsible for opening and closing the centre, running workshops and smart recovery and supporting other new volunteers coming through the programme.

Tony also started engaging with Cyfle Cymru and started volunteering on the interview panels along other members of the consortium and felt that this would be a good opportunity for him.

He says "I was nervous applying for the role as this would be the only proper job I had in years and with my past, I thought that would be a problem but it wasn't and I now love my job, helping people at their lowest and giving them the confidence that they can also come through it"

## Oli Sidnell

### Peer Mentor, Dyfed



**My name is Oli Sidnell and I've been with Cyfle Cymru as a peer mentor covering Ceredigion since September last year. Prior to this I had always worked in construction and loved it.**

I started volunteering with Youth Justice and Preventions Service and covered lots of relevant subjects in training as well as getting some experience working with vulnerable people. I enjoyed volunteering with YJPS and still do when I can find the time. Reluctant to go back into construction as I craved change, I applied for this job and thanks to the training and experiences with YJPS I got the job.

Since starting work with Cyfle Cymru I've met loads of great new people both staff and service users and like to think I'm making a positive difference to some of them. I look forward to gaining experience and helping to develop what Cyfle has to offer in my county as I go.

We regularly volunteer at a small local zoo doing some maintenance jobs and everyone seems to have a great time.

I am really enjoying my new role.

0300 777 2256
ask@cyflecymru.com

# Our stories

Sharing good news from across the Cyfle Cymru network

## Chris



**8 years ago Chris hit rock bottom. After a relationship breakdown and losing his job, his social drinking spiralled out of control, along with his mental health.** He was found on the streets of Abergavenny with no idea of how he got there and was promptly rushed to hospital to start the process of trying to get his life back together.

"At one point my own son called me a waste of time and told me my life was going nowhere unless I fought to do something about it" Chris says. He now believes that to be the impetus that he needed to access the right kind of support – from everyone and anyone who could offer it.

He found out about Cyfle Cymru from his Work Coach at Abergavenny Job Centre and initially both were sceptical that he would keep consistent in utilising the service, especially given that he had not heard of Cyfle Cymru before.

Chris came to the first appointment and instantly appreciated the Peer Mentor going at a pace that he was comfortable with: "I really appreciated that Cyfle were not pushing me and for just being there for me to talk through my professional and personal barriers and aspirations."

Chris had previously been in a middle management position earning very good money with a lot of responsibility. But now he just wanted something simple where he could just go in, do a good job, earn a wage and leave with a smile on his face at the end of the day.

After working with his Peer Mentor on non-accredited training, engaging in job search, and attending Wellbeing Workshops, Chris plucked up the motivation and courage to apply with the local employer Avara for a role on the factory line.

After quite a lengthy process, Chris started his role full time on the production line. Within 2 weeks he was approached by the boss of the factory. Being Chris, he was fearing the worst but she said that he had made such a good impression she wanted him to try the role as Storage Manager's Assistant.

"It's great", Chris says, "my line manager is salt of the earth, it's nice and quiet, warm, you're essentially your own boss and I'm even due to get a wage increase!". "Over the last 8 to 10 years I haven't had much luck – some self-inflicted, some not – but it couldn't have turned out better". "I'm now earning, achieving and doing something. I'm walking 25 miles a week to work, I've lost a stone in weight and my fitness and wellbeing has improved hugely". "It's nice to have my independence back; to buy a pint of milk with my own money, not from benefits. And the feeling of self-worth – I know I have gone up in the estimation of other people. With your help and with the motivation and support of my son – I wanted to do it for him and give it all to him." "Thank you to Cyfle Cymru for the tremendous encouragement, support and guidance. To meet the Peer Mentor as a person, to sit down and spill the beans always helped me to walk away with a great boost of confidence." "I know I've not finished my journey yet but I've considered the end point and I'll continue to strive and achieve 10/10 in life for both myself and my son". "My next step is to get a car, something I would never have dreamt of doing 6 months ago even!"

0300 777 2256
ask@cyflecymru.com

# Latest News From Your Area



North Wales
Gwent
Dyfed
Western Bay
Powys



**MORE THAN 100 volunteers from across Wales ruffled feathers when they all gave their time to care for animals at some of the nation's best-loved attractions.**

People in recovery from substance misuse and mental health conditions joined keepers at the Amelia Trust Farm in Barry, Borth Wild Animal Kingdom near Aberystwyth, Welsh Mountain Zoo in Colwyn Bay and The Owl Sanctuary in Ebbw Vale.

Meanwhile, Cyfle Cymru participants in Powys made cosy fleece blankets to be donated to the Creature Comforts dogs shelter near Brecon.

The single day of volunteering demonstrated that people in recovery from mental health and substance misuse conditions can make a significant contribution to their communities – and develop the skills necessary to succeed in the world of work.

Hundreds of project participants have already found rewarding new careers with the help of Cyfle Cymru's programme of one-to-one mentoring, training, volunteering and dedicated help to find work.



Our peer mentors and employment advisors have delivered more than 110,000 hours of individual support across the North Wales, Gwent, Dyfed, Powys and Western Bay areas.

In Colwyn Bay, dozens of participants from across North Wales gathered to complete important ground works, barrowing wood chippings across the Welsh Mountain Zoo to prepare for a new exhibit.

"It was wonderful to get our teams from across the region together, to demonstrate the power of recovery and to show how our volunteers are making a real contribution to communities across Wales," lead peer mentor for North Wales Larry Marsden said.

At Borth, volunteers were so busy digging out the meerkat pen that they declined a trip to see the lions! Others spent the day lugging wood to clear a space for a new project, while another member of the team overcame her anxiety and chose to work outside with the rest of the group.

Peer mentor Oliver Sidnell said participants left the zoo feeling tired – but happy and accomplished.

"Our participants were talking as though they had known one another for ages – swapping recovery stories and sharing words of encouragement and support," he said.

"The zoo was alive with the sound of laughter and smiles all round. It was really humbling and I can't wait to get them together again!"

Our team of mentors and volunteers had an absolute hoot at the Owl Sanctuary at Kingdom Park in Ebbw Vale. After a really warm welcome and a great day making some new feathered friends, they hope to return soon.

In Barry, the group fed and interacted with a number of the animals – including goats, chickens, sheep, pigs and alpaca. Everyone enjoyed coffee and cake, and the group look forward to returning to do some more volunteering.



# Cyfle Cymru

## Peer Mentoring Service

Cymru Iach ar WAITH | Gwasanaeth Di-Waith

Healthy WORKING Wales | Out of Work Service

0300 777 2256
ask@cyflecymru.com

# Performance

**Out latest data bulletin shows how our teams across Wales are helping people overcome challenges to get into or closer to work**

**FROM AUGUST 2016 TO THE END OF JANUARY 2019 (i.e. the first ten quarters), Cyfle Cymru has received a total of 6826 referrals across the five lot areas.**

**Of these, 6757 have been registered to the service - a registration rate of 99.0%. In total 122,333 hours of support have been given during the project's first ten quarters.**

The progression towards employment







The average age of people registered to Cyfle Cymru is 37.2. The greatest proportion of registrants is in the 25 to 34 age group.




% of male/female registered to Cyfle Cymru



**CYFLE CYMRU is delivered across five regions of Wales, running the length and breadth of the country. The area includes the West Wales and the Valleys funding area (coloured blue on the map) and the East Wales area (coloured green).**

## Delivery areas

**Dyfed**
Ceredigion, Pembrokeshire, Carmarthenshire

**Gwent**
Monmouthshire, Newport, Caerphilly, Blaenau Gwent, Torfaen

**North Wales**
Wrexham, Flintshire, Denbighshire, Conwy, Gwynedd, Isle of Anglesey

**Powys**

**Western Bay**
Swansea, Neath Port Talbot, Bridgend

# Cyfle Cymru

## Peer Mentoring Service

**0300 777 2256**
ask@cyflecymru.com

Cymru Iach ar WAITH | Gwasanaeth Di-Waith

Healthy WORKING Wales | Out of Work Service

## Cyfle Cymru: about the service

**CYFLE CYMRU IS a service which helps people with substance misuse issues and/or mental health conditions who are in recovery or are towards the end of their treatment programme into work, education or training.**

The project has been funded for an initial two years by the European Social Fund, and is delivered by members of Developing a Caring Wales (DACW) in North Wales, Gwent, Dyfed, Western Bay and Powys.

Cyfle Cymru provides the support needed to find the right job, training opportunity or qualifications.

It offers:

- one-to-one guidance from a peer mentor who can draw on their own experience of substance misuse, recovery and/or mental health conditions;
- specialist employment support, including volunteering opportunities, and help and advice on how to search and apply for jobs.

## Who is eligible?

The service can support individuals towards and into work if they:

- are aged 16 to 24 and not in employment, education or training
- are aged 25 or over and long-term unemployed or economically inactive
- live in North Wales, Gwent, Dyfed, Western Bay or Powys
- are in recovery from substance misuse and/or mental health issues

### Definition of long-term unemployed

An individual who has been unemployed for more than 12 months and has one or more of the complex barriers below:

- mental health and/or substance misuse issues
- low or no skills
- have care or child care responsibilities
- are from a job less household
- have a work limiting health condition or disability
- from a BME background

### Definition of economically inactive

A person who is currently not part of the labour force (in the sense that they are not employed or unemployed) or in education or training, is aged 25 or over, and has one of the complex barriers listed below:

- mental health and/or substance misuse issues
- low or no skills
- care or child care responsibilities
- are from a jobless household
- have a work-limiting health condition or disability
- from a BME background

Please note: individuals must have a substance misuse issue and/or mental health issues to qualify for Cyfle Cymru

## Outcomes

The outcomes for the project are as follows:

- completion of a non-accredited course
- gaining a qualification or work-relevant certificate
- entering employment, including self-employment
- engaged in job search upon leaving
- increasing employability through completing work experience placement or volunteering opportunity
- entering further learning
- in employment six months after leaving

Funding for this project is dependent on achieving these outcomes, with specific targets set for each.

## Get in touch

If you would like to refer to the project or would like further information, please contact us on the details below:

**0300 777 2256**
**ask@cyflecymru.com**
**www.dacw.co.uk**

dacw
Developing a caring Wales
Datblygu Cymru gofalgar

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales
Gwasanaeth Di-Waith
Out of Work Service